Lefel 3

360 ODA

Tystysgrif Lefel 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Lluniwyd y cymhwyster Dystysgrif Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn bennaf ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n awyddus i ddysgu mwy am y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r cymhwyster yn darparu llwybr dilyniant addas i ddysgwyr sydd wedi astudio cymwysterau Lefel 2 o fewn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gan gynnwys:

- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Maen nhw hefyd yn addas ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r blaen ond sydd â'r gallu i astudio ar Lefel 3.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys y materion cyfredol canlynol yn ymwneud â'r maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru:

- egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion dros y rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau, gofal ac anghenion cefnogi
- hybu hawliau unigolion dros y rhychwant oes.

Strwythur y cymhwyster

Cymhwyster unedol yw'r cymhwyster Tystysgrif Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau sy'n cynnwys tair uned orfodol:

Uned	Teitl yr Uned	Asesu	ODA
1	Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau	Mewnol	90
2	Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion dros y rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau, gofal ac anghenion cefnogi	Allanol	180
3	Hybu hawliau unigolion dros y rhychwant oes	Mewnol	90

Asesu

Asesir y cymhwyster Tystysgrif Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau drwy 50% o asesiad mewnol a 50% o asesiad allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- dau aseiniad wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol.
- un arholiad allanol.

Beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Gallai dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster Tystysgrif Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau symud ymlaen i'r cymhwyster Diploma Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau.

Mae'r cymhwyster hwn hefyd yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol trwy amrediad o gyrsiau addysg uwch, neu brentisiaethau. Byddai dysgwyr sy'n bwriadu symud ymlaen i addysg uwch yn cael budd o astudio cymwysterau lefel 3 ychwanegol gyda'r Dystysgrif hon.

Gall dysgwyr hefyd symud ymlaen i gymwysterau eraill yn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, er enghraifft y cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.

Pwyntiau Tariff UCAS

Mae'r pwyntiau tariff UCAS canlynol ar gael am y cymhwyster Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau:

Gradd	Pwyntiau
A*	56
A	48
B	40
C	32
D	24
E	16

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru yn www.dysguiechydagofal.cymru

Lefel 3

720 ODA

Diploma Lefel 3: Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Lluniwyd y cymhwyster Diploma Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau yn bennaf ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n awyddus i ddysgu mwy am y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r cymhwyster yn darparu llwybr dilyniant addas i ddysgwyr sydd wedi astudio cymwysterau Lefel 2 o fewn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant gan gynnwys:

- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant
- Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, neu
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd.

Maen nhwhefyd yn addas ar gyfer dysgwyr nad ydynt wedi astudio Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r blaen ond sydd â'r gallu i astudio ar Lefel 3.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster yn galluogi dysgwyr i feithrin a dangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o fewn cyd-destun gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r cymhwyster yn cynnwys y materion cyfredol canlynol yn ymwneud â'r maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru:

- egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion dros y rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau, gofal ac anghenion cefnogi
- hybu hawliau unigolion dros y rhychwant oes
- cefnogi unigolion mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael.
- gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ymgymryd ag o leiaf **100** awr o ymgysylltu â'r sector, y mae'n rhaid treulio **60** awr ohono'n ymgymryd â lleoliad gwaith. Gallai mathau eraill o ymgysylltu â'r sector gynnwys ymweliadau â'r gweithle, darlithwyr gwadd a mynychu cynadleddau a digwyddiadau allanol.

Strwythur y cymhwyster

Cymhwyster unedol yw'r cymhwyster Diploma Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau sy'n cynnwys chwe uned orfodol:

Uned	Teitl yr Uned	Asesu	ODA
1	Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau	Mewnol	90
2	Ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad unigolion dros y rhychwant oes a sut mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau, gofal ac anghenion cefnogi	Allanol	180
3	Hybu hawliau unigolion dros y rhychwant oes	Mewnol	90
4	Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol.	Mewnol	90
5	Cefnogi unigolion mewn perygl i gyflawni'r canlyniadau maen nhw'n dymuno eu cael.	Allanol	180
6	Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol	Mewnol	90

Asesu

Asesir y cymhwyster Diploma Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau drwy 50% o asesiad mewnol a 50% o asesiad allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- pedwar aseiniad wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol
- dau arholiad allanol.

Beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Mae'r fanyleb hon yn cynnig sylfaen addas ar gyfer astudio iechyd a gofal cymdeithasol trwy amrediad o gyrsiau addysg uwch, neu brentisiaethau. Byddai dysgwyr sy'n bwriadu mynd ymlaen i addysg uwch yn cael budd o astudio cymhwyster lefel 3 ychwanegol yn ogystal â'r Diploma hwn.

Gall dysgwyr hefyd symud ymlaen i gymwysterau eraill yn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant, er enghraifft y cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.

Pwyntiau Tariff UCAS

Mae'r pwyntiau tariff UCAS canlynol ar gael am y cymhwyster Diploma Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau:

Gradd	Pwyntiau
A*A*	112
A*A	104
AA	96
AB	88
BB	80
BC	72

Gradd	Pwyntiau
CC	64
CD	56
DD	48
DE	40
EE	32

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru yn www.dysguiechydagofal.cymru